

Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau

6 Hydref 2021

Yn bresennol: Mrs J James (Cadeirydd)
Cynghorydd D Clements, Cynghorydd K Doolin, Mrs S Hoss,
Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd A Wilcox
a'r Cynghorydd M Williams.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 10.25am)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Dr R Plummer.

2. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Orffennaf 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

PENDERFYNWYD cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Orffennaf 2021.

4. Materion yn codi o'r Cofnodion

Ethol Dirprwy Gadeirydd (Cofnod 2)

Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i'r Cynghorydd P Kidney am ei waith fel Dirprwy Gadeirydd yn ystod y flwyddyn flaenorol a llongyfarch y Cynghorydd M Williams ar gael ei hethol i'r swydd honno am y flwyddyn i ddod.

Datblygu Aelodau (Cofnod 7)

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd dyddiad wedi'i dderbyn ar gyfer Asesu'r Awdurdod o ran Siarter Uwch am Gefnogi a Datblygu Aelodau. Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi edrych ar y dystiolaeth ac wedi gofyn am wybodaeth bellach am Arolygon a wnaed o farn yr Aelodau a'r cynlluniau i godi ymwybyddiaeth o rôl Aelodau'r Parc Cenedlaethol cyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022. Roedd ymatebion i'r materion hyn wedi'u cyflwyno. O ystyried mai yn 2013 y cynhaliwyd yr arolwg o farn yr Aelodau ddiwethaf, gofynnodd y Cadeirydd a oedd cynlluniau ar droed i gynnal arolwg arall. Dywedodd y swyddog bod Gweithdy Aelodau wedi'i gynnal ar y pwnc hwn yn 2018, a'i bwriad oedd cynnal arolwg arall eleni, ac y byddai'r cwestiynau yn cael eu hanfon at y Cadeirydd / Dirprwy Gadeirydd ymlaen llaw am unrhyw sylwadau.



Gan fod y cofnodion hefyd yn nodi bod deg Aelod eisoes wedi cwblhau eu Cynlluniau Cymorth Personol, roedd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi annog unrhyw Aelod o'r Pwyllgor nad oedd eto wedi gwneud hynny i fynd ati i Adolygu ei Ddatblygiad Personol, yn enwedig yng ngoleuni'r Asesiad Siarter oedd yn yr arfaeth. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd i anfon e-bost i atgoffa'r Aelodau, ac awgrymodd y Cadeirydd y gellid dilyn yr e-bost gan alwad ffôn gan Gadeirydd yr Awdurdod. Dywedodd y Rheolwr y byddai'n trafod hynny gyda'r Cadeirydd.

NODWYD.

5. Cynllun Hyfforddiant Datblygu Aelodau

Dechreuodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd drwy ymddiheuro am yr oedi cyn dosbarthu'r Cynllun Hyfforddiant, a diolchodd i'r Cadeirydd am fod yn amyneddgar yn caniatáu i'r cyfarfod gael ei gynnal er gwaethaf bod yr adroddiad yn hwyr. Roedd y Cynllun wedi'i ddatblygu yn dilyn derbyn y Cynlluniau Cymorth Personol gan yr Aelodau, a gwblhawyd fel rhan o'r adolygiad o ddatblygiad personol. Roedd deg Cynllun Cymorth wedi dod i law hyd yn hyn ac roedd yr anghenion hyfforddiant a glustnodwyd o'r deg cynllun hyn wedi'u sgorio, ac roedd y dadansoddiad o'r anghenion hyfforddiant wedi'u hatodi i'r adroddiad.

O'r dadansoddiad hwn, roedd cynllun hyfforddiant Gorffennaf 2020 wedi'i ddiweddarau i amlygu'r blaenoriaethau a glustnodwyd, er bod rhai elfennau o'r cynllun blaenorol wedi'u cario ymlaen, ac roedd y cynllun hwn hefyd wedi'i atodi i'r adroddiad. Dywedwyd na fu'n bosibl trefnu rhai o'r ymweliadau safle oherwydd Covid, ond y gobaith oedd y gallai'r ymweliadau hyn gael eu cynnal yn nes ymlaen. Hefyd roedd rhai Gweithdai oedd wedi'u cynnal yn gynharach eleni yn cael eu hail gynnal yn 2022 yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol.

Cymeradwyodd yr Aelodau y swyddog am ei gwaith caled, a nodwyd bod hyblygrwydd y cynllun yn amlwg gan fod cyfleoedd dysgu ychwanegol wedi'u trefnu, megis yr Hyfforddiant rhagorol ar Safonau a gynhaliwyd yn ddiweddar.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun Hyfforddiant Cefnogi a Datblygu Aelodau.

